DYER, JOHN (1699 - 1757), bardd

Enw: John Dyer
Dyddiad geni: 1699
Dyddiad marw: 1757
Priod: Sarah Dyer (née Ensor)
Rhiant: Catherine Dyer (née Cocks)
Rhiant: Robert Dyer
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth; Barddoniaeth
Awdur: Herbert Gladstone Wright

ail fab Robert Dyer, cyfreithiwr a oedd yn byw yn Abersanen, Llanfynydd, Sir Gaerfyrddin, ar y pryd. (Yn 1710 prynodd Aberglasney, ym mhlwyf cyfagos Llangathen). Bedyddiwyd John yn eglwys Llanfynydd 13 Awst 1699 a thebyg mai yn Abersanen y'i ganwyd ychydig cyn hynny.

Ar ôl derbyn addysg yn Ysgol Westminster, aeth John i swyddfa ei dad, a phan fu hwnnw farw aeth yn ddisgybl i Jonathan Richardson (1665 - 1745), awdur *Theory of Painting*, 1715. Yn ddiweddarach crwydrodd Dyer trwy Dde Cymru a'r gororau i baentio. Er mwyn datblygu ei ddawn artistaidd aeth i'r Eidal; yno dug adfeilion baddondy Caracalla ar gof iddo y deri ' On Merlin's mount, or Snowden's rugged sides ' a'u canghennau wedi eu gwasgaru gan y storm. Yn 1726 dychwelodd i Loegr a dod i adnabod Aaron Hill, dramaydd, a'i gyfeillion James Thomson a Richard Savage yn eu plith.

Yn *A New Miscellany*, y tybir ei gyhoeddi yn 1726, ymddangosodd ' Grongar Hill,' cân Dyer mewn llinellau wyth sillaf; daeth allan yr un flwyddyn mewn fersiwn bindarig yn *Miscellaneous Poems and Translations* (gol. Savage), a thrachefn yr un flwyddyn yn *Miscellaneous Poems* (gol. D. Lewis) - y tro olaf hwn yn llinellau wyth sillaf. Arferai fersiwn lawysgrif o'r gân fod yn eiddo Lady Hertford - perthynai Dyer a Thomson i'w chylch hi, ac yr oeddynt yn gyfeillion da. Y mae cân ar gael yn mynegi gofid am iddynt ymwahanu; efallai mai yr hyn a roes fod i'r gân ydoedd cynnig a wnaeth Dyer i fod yn amaethwr yn Mapleton, Swydd Henffordd. Eithr newidiwyd ei gynlluniau. Priododd ryw Miss Ensor, ac ordeiniwyd ef. O hynny ymlaen bu mewn gwahanol fywiolaethau yn swyddi Leicester a Lincoln; yn 1751 aeth i wasnaethu yn Coningsby, lle y claddwyd ef 15 Rhagfyr 1757.

Ysbrydolwyd ' Grongar Hill,' cân enwocaf Dyer, gan y golygfeydd yn Aberglasney a'r cylch; cyhoeddwyd yn Llanymddyfri yn 1832 fersiwn Gymraeg Thomas Davies, Crugywheel, ohoni. Dwy gân nodedig arall ydyw ' The Ruins of Rome,' 1740, a ' The Fleece,' 1757; ceir llawer o atgofion am Gymru yn yr olaf. Y mae i Dyer beth pwysigrwydd fel bardd-baentiwr. Cawsai gwaith yr arlunydd Ffrangeg Claude ddylanwad ar ei farddoniaeth, ac y mae'n bosibl ystyried Dyer yn hytrach na Thomson fel gwir arloesydd barddoniaeth yn disgrifio golygfeydd natur. Talodd William Wordsworth deyrnged iddo mewn soned - ' To the Poet, John Dyer.'

Awdur

Yr Athro Emeritus Herbert Gladstone Wright, (1888 - 1962)

Ffynonellau

The Cambridge Bibliography of English Literature (Caergrawnt 1940), ii, 315

Oxford Dictionary of National Biography

Samuel Johnson, *The Lives of the Most Eminent English Poets ... A new edition, corrected, etc* (Llundain 1794)

Edward Thomas, rhagymadrodd i Dyer's *The poems of John Dyer* (Llundain 1903), 1913

H. S. Hughes yn *Modern Philology a journal devoted to research in modern languages and literatures* xxvii

W. Arthur yn *The Red Dragon*, x, 208-28

E. W. Manwaring, *Italian Landscape in Eighteenth Century England a study chiefly of the influence of Claude Lorrain and Salvator Rosa on English taste, 1700-1800* (New York 1925) 3, 96, 98-101

F. Green, *West Wales Historical Records* (1910–29), VII, 93-108

Belinda Humfrey, *John Dyer* (1980)

gwybodaeth ychwanegol gan Mr Denys Smith, Llandeilo

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Dyer

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 38514478313453577209 5

Wikidata: Q3397435

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu